***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1969 (Cy. 191)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Awst 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Awst 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Tachwedd 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013 a daw i rym ar 2 Tachwedd 2013, ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr "y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol" ("*the General Provisions Regulations*") yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013(**3**); ac

ystyr "tramgwydd traffig ffyrdd" ("*road traffic contravention*") o ran Cymru, yw unrhyw un o'r canlynol:

(a) tramgwydd parcio fel y'i disgrifir ym mharagraff 4, Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004;

(b) tramgwydd lôn fysiau fel y'i disgrifir yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004; neu

(c) tramgwydd traffig symudol fel y'i disgrifir yn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

---

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2013/362.

**Canllawiau**

**2.** Y canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer Cymru o dan Ran 6 o Ddeddf 2004, i awdurdodau gorfodi wrth osod lefelau taliadau ar gyfer tramgwyddau traffig ffyrdd yw'r rhai hynny a nodir yn yr Atodlen.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008(**4**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

2 Awst 2013

(**4**) O.S. 2008/613 (Cy.65).

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## CANLLAWIAU I AWDURDODAU GORFODI WRTH OSOD TALIADAU AM DRAMGWYDDAU TRAFFIG FFYRDD

### Taliadau cosb ar gyfer tramgwyddau traffig ffyrdd

**1.**—(1) Rhaid gosod taliadau cosb ar gyfer tramgwyddau traffig ffyrdd—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (2) yn un o'r bandiau yn Nhabl 1; a

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (3) yn y band a ddewisir ar gyfer tramgwyddau lefel uwch.

(2) Rhaid gosod y lefel disgownt ar gyfer taliad cosb a delir yn gynnar (hynny yw o fewn 21 o ddiwrnodau yn achos taliadau cosb a osodwyd ar sail cofnod a gynhyrchwyd gan ddyfais a gymeradwyir o dan reoliad 10 o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol a 14 o ddiwrnodau ym mhob achos arall)—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch, ar y lefel a bennir yng ngholofn (4);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall, ar y lefel a bennir yng ngholofn (5),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

(3) Rhaid gosod lefel gordal taliad o dâl cosb wedi i dystysgrif codi tâl gael ei dyroddi—

(a) ar gyfer tramgwyddau lefel uwch ar y lefel a bennir yng ngholofn (6);

(b) ar gyfer pob tramgwydd arall ar y lefel a bennir yng ngholofn (7),

yn y band sy'n pennu lefelau'r taliadau cosb.

**Tabl 1**

| *(1)* | *(2)* | *(3)* | *(4)* | *(5)* | *(6)* | *(7)* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Band* | *Tâl cosb lefel uwch* | *Tâl cosb lefel is* | *Tâl cosb lefel uwch a delir yn gynnar* | *Tâl cosb lefel is a delir yn gynnar* | *Tâl cosb lefel uwch a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl* | *Tâl cosb lefel is a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl* |
| 1. | £60 | £40 | £30 | £20 | £90 | £60 |
| 2. | £70 | £50 | £35 | £25 | £105 | £75 |

(4) Caiff awdurdod gorfodi osod taliadau cosb yn unol â gwahanol fandiau yn y tabl mewn gwahanol rannau o'i ardal, cyn belled â bod pob taliad ym mhob rhan yn cael ei osod yn unol â'r un band.

(5) "Tramgwyddau lefel uwch" yw'r rhai hynny a restrir yn yr Atodiad.

### Taliadau am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau

**2.** Y rhai hynny a geir yn Nhabl 2 yw'r taliadau y mae'n rhaid eu codi am symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau a ganfyddir mewn ardal orfodi sifil.

**Tabl 2**

| *(1)*<br><br>*Eitem* | *(2)*<br><br>*Math o dâl* | *(3)*<br><br>*Swm y tâl* |
|---|---|---|
| 1. | Y tâl am symud cerbyd ymaith | £105.00 |
| 2 | Y tâl am storio cerbyd | £12 ar gyfer pob diwrnod, neu ran o ddiwrnod, pan fydd y cerbyd yn cael ei gadw |
| 3. | Y tâl am waredu cerbyd | £50.00 |

## Rhyddhau cerbyd o afael dyfais i'w rwystro rhag symud o dan adran 79 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004

**3.** Rhaid i'r tâl sy'n daladwy o dan reoliad 14(2)(b) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol ar gyfer rhyddhau cerbyd o afael dyfais i'w rwystro rhag symud fod yn £40.

## Arbedion ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru

**4.** Nid oes dim yn y canllawiau hyn yn rhagfarnu nac yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan baragraff 8(3) o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i ganiatáu i awdurdod gorfodi i wyro oddi wrth y canllawiau hyn.

## Atodiad

### RHESTR O DRAMGWYDDAU LEFEL UWCH

**1.** Tramgwydd yn ymwneud â chyflawni trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(b) (cyfyngiadau aros a llwytho) o Atodlen 7 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004").

**2.** Tramgwydd yn ymwneud â gadael y cerbyd mewn man parcio ar-y-stryd ac eithrio fel a awdurdodir gan unrhyw orchymyn yn ymwneud â'r man parcio yn unrhyw un o'r achosion a ganlyn, neu oddi tano—

(a) heb fod yn dangos hawlen, taleb neu docyn talu ac arddangos;

(b) mewn man lle mae parcio wedi cael ei atal;

(c) pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu;

(d) pan nad yw'r cerbyd yn dod o fewn y dosbarth o gerbyd y caniateir iddo barcio yno.

**3.** Tramgwyddo'r gwaharddiad a osodir gan adran 85 (parcio dwbl etc.) o Ddeddf 2004.

**4.** Tramgwyddo'r gwaharddiad a osodir gan adran 86 (troetffyrdd a ostyngwyd) o Ddeddf 2004.

**5.** Tramgwydd sy'n cynnwys cyflawni trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(h) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (troseddau sy'n ymwneud â llwybrau beiciau).

**6.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(g) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (parcio Cerbydau Nwyddau Trymion ar leiniau ymyl, lleiniau canol neu droetffyrdd).

**7.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(c) (peri i gerbydau aros ar groesfannau i gerddwyr neu gerllaw iddynt) neu 4(2)(i)(i) (llinellau igam-ogam gerllaw croesfannau) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

**8.** Tramgwydd sy'n cynnwys trosedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(i)(ii) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (marciau safleoedd bysiau neu arosfannau bysiau).

**9.** Tramgwydd sy'n ymwneud â throsedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(e) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 (parcio mewn mannau llwytho).

**10.** Tramgwydd sy'n ymwneud â throsedd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 4(2)(d) o Atodlen 7 i Ddeddf 2004 mewn perthynas â man parcio oddi-ar-y-stryd ac yn cynnwys unrhyw un neu rai o'r canlynol pan fo gorchymyn yn eu gwahardd mewn perthynas â'r man parcio—

(a) defnyddio cerbyd mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu;

(b) parcio mewn man cyfyngedig;

(c) parcio mewn cilfan hawlenni heb arddangos hawlen;

(d) parcio mewn man parcio i berson anabl heb arddangos yn gywir fathodyn dilys person anabl;

(e) parcio cerbyd mewn man pan nad yw'r cerbyd yn dod o fewn y dosbarth o gerbyd y caniateir iddo barcio yno.

**11.** Tramgwydd lôn fysiau fel y'i disgrifir yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

**12.** Tramgwydd traffig symudol fel y'i disgrifir yn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan 3 (paragraffau 7 i 9) o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau gorfodi y tu allan i Lundain Fwyaf osod lefelau taliadau o dan Ran 6 o'r Ddeddf honno (gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig) ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r lefelau hynny gyd-fynd â chanllawiau a roddir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol, ac eithrio pan fo'r awdurdod hwnnw yn caniatáu i awdurdod gorfodi wyro oddi wrth y canllawiau hynny.

Drwy'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer Cymru, yn rhoi i awdurdodau gorfodi yng Nghymru y canllawiau ar daliadau am dramgwyddau traffig ffyrdd a nodir yn yr Atodlen.